Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach: 9 Mawrth 2023

Crynodeb o gyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach a gynhaliwyd yn bersonol ar 9 Mawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Ebrill 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Ebrill 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Croeso a chyflwyniadau

Y diweddaraf am drafodaethau cytundebau masnach Llywodraeth y DU

Y diweddaraf am weithredu a defnyddio Cytundebau Masnach Rydd (FTA)

Trafodaeth ford gron ar Israel a Gweriniaeth Korea

Y diweddaraf am y Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol

Sylwadau i gloi



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

## Cadeirydd y cyfarfod

- Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

## Aelodau a rhanddeiliaid y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach

- Aileen Burmeister (Masnach Deg Cymru)
- Andy Richardson (Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru)
- Catherine Smith (Hybu Cig Cymru)
- Ceri Williams (TUC Cymru)
- Gwyn Tudor (MediWales)
- Henry Clarke (RPD Law)
- Kerry Owens (Unite)
- Louisa Petchey (Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Yr Athro Nick Pidgeon (Prifysgol Caerdydd)
- Oliver Carpenter (Siambrau Cymru)
- Paul Brooks (Y Sefydliad Allforio)
- Richard Rumbelow (Make UK)
- Robert O’Neil (Fforwm Modurol Cymru)

# Croeso a chyflwyniadau

Agorodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, y cyfarfod drwy ddiolch i aelodau'r grŵp ac amlinellu eu rôl wrth helpu i lywio polisi masnach Llywodraeth Cymru drwy ddarparu mewnbwn arbenigol ar sut y gallwn wneud y gorau o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyfleoedd, a lleihau'r bygythiadau, y gallai cytundebau masnach rydd eu cyflwyno i Gymru ac economi Cymru.

Cynhaliodd y Gweinidog drafodaeth ford gron i holi barn yr aelodau am y sefyllfa bresennol ym maes polisi masnach a'r hyn a allai effeithio ar Gymru wrth symud ymlaen.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP)
- Fframwaith Windsor
- Deddf Lleihau Chwyddiant yr UDA a Mecanwaith yr UE ar gyfer Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau
- Y Cytuniad Siarter Ynni
- Ymgysylltu â phartneriaid Cytundebau Masnach Rydd (FTA) posibl gan gynnwys Llysgenadaethau ac Uchel Gomisiynwyr
- Llwyddiant Allforion Bwyd a Diod o Gymru yn 2022
- Digidoleiddio masnach

## Y diweddaraf am drafodaethau cytundebau masnach Llywodraeth y DU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach Llywodraeth Cymru drosolwg o’r gwaith hyd yma ynghylch cytundebau masnach rydd Llywodraeth y DU, gan gynnwys y trafodaethau sydd wedi dod i ben, y rhai hynny sydd wedi dechrau a’r rhai sydd ar fin dechrau. Pwysleisiwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn cyfrannu at drafodaethau ar bolisi masnach ryngwladol a thrafodaethau masnach.

## Y diweddaraf am weithredu a defnyddio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cytundebau Masnach Rydd (FTA)

Rhoddodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu a defnyddio Cytundebau Masnach Rydd. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Cyflawni – hyrwyddo Cytundebau Masnach Rydd newydd a chymorth i fusnesau Cymru, gan gynnwys defnyddio'r Cytundebau Masnach Rydd presennol.
- Deddfwriaeth – rôl Llywodraeth Cymru wrth weithredu Cytundebau Masnach Rydd lle mae angen newidiadau i bolisi datganoledig neu ddeddfwriaeth Cymru.
- Pwyllgorau – sut y gall Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid gyfrannu at nifer y pwyllgorau a sefydlwyd o dan bob Cytundeb Masnach Rydd newydd.

## Trafodaeth ford gron ar Israel a Gweriniaeth Korea

### Israel

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thrafodaethau masnach Llywodraeth y DU gydag Israel.

### Gweriniaeth Korea

Rhoddodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau masnach Llywodraeth y DU â Gweriniaeth Korea. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Pryderon am hawliau llafur yn Ne Korea
- Cyfleoedd posibl o fewn y sector technoleg werdd
- Yr effaith bosibl ar ddiwydiannau gweithgynhyrchu Cymru

# Y diweddaraf am y Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol

## Eitem 6: Y diweddaraf am y Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol

Rhoddodd Paul Brooks, Arweinydd Masnach Gweithgynhyrchu Cymru a'r DU, drosolwg o'r Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol (IOE&IT) a sut mae'n datblygu ei bresenoldeb yng Nghymru.

# Sylwadau i gloi

Daeth Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach Llywodraeth Cymru â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i'r rhai a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau eang i'r trafodaethau.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-9-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.